Neuadd Y Sir
Stryd Caefyrddin
Llandeilo
Gaerfyrddin
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824413

Technical Officer/
Swyddog Technegol:
Mr R.H. Griffiths

The Shire Hall
Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824413

Town Clerk/ Clerc y
Dref: Ms C.A .Paterson

0124

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Mhrif Siambr Dinefwr, Adeiladau'r Cyngor, Y Cilgant, Llandeilo ar ddydd Mawrth 18fed Tachwedd 2003, am 7.30pm.

Presennol: *Cynghorwyr*: Cyng D.A. Jones (Maer – Cadeirydd), Cyng G. Vaughan Jones (Dirprwy Faer), Cyng S. Burge, Cyng C. Jenkins, Cyng I. Gwyn, Cyng R. Bellamy.

Arall: C. Paterson (Clerc y Dref), R.Huw Griffiths (Swyddog Technegol)

5913: Ymddiheuriadau: Cyng K. Day, Cyng G. Price, Cyng C. Cooper, Cyng D. Williams, Cyng H. Ladd Lewis, Cyng R. Davies.

5914: Cofnodion o gyfarfod blaenorol o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 21ain Hydref 2003.

Derbynnir gofnodion o gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 21ain Hydref 2003 yn mhrif Siambr Dinefwr, Adeiladau'r Cyngor, Y Cilgant, Llandeilo am 7.30pm, fel cofnod cywir, cynigiwyd gan y Cyng Burge ac eiliwyd gan y Cyng Vaughan Jones, gyda phawb o blaid.

5915: Materion yn Codi.

5855 – Gerddi'r Cilgant. Roedd adran gyfreithiol C.S.C. wedi anfon dogfennaeth at y Cyngor mewn perthynas â pherchnogaeth flaenorol o'r allotment.

5884: Mae'r gwaith ar y wefan wedi dechrau ac mae cais wedi'i anfon at y Western Mail yn gofyn am anfon y mapiau a gwybodaeth hanesyddol mewn fformat gwahanol.

5889: Newid ffenest yn Neuadd y Sir. Mae dau ddyfynbris gan y Swyddog Technegol ar gyfer gosod ffenest newydd yn ei lle, ac mae'n chwilio am ddyfynbrisiau newydd ar gyfer 'dim ond cyflenwi'r ffenest' fel a awgrymwyd yn y cyfarfod.

5890: Mae'r mater yn ymwneud â'r tap, fel cyflenwad o ddŵr i'w ddefnyddio gan y Cyngor Tref, i'w osod y tu allan i'r Toiledau Cyhoeddus wedi'i ddatrys. Mae'r Swyddog Technegol yn meddu ar allwedd o'r cwpwrdd storio a leolir yn y

Toiledau, ac felly mae'n gallu defnyddio'r tap presennol sydd yn yr ystafell storio.

0125

5916: Cododd y Cyng Vaughan Jones y mater sensitif ynghylch cofnodion. Cafwyd trafodaeth ynghylch natur y cofnodion fel cofnod cyhoeddus. Dywedwyd bod angen cofnodi pob penderfyniad yn glir gan gofnodi'r holl wybodaeth ariannol gan fod y cofnodion yn llunio sylfaen i Olrhain y Cyfrifon.

Mae'r modd y mae'r cofnodion yn cael eu llunio i'w rhoi fel Eitem Agenda ar gyfer cyfarfod o'r Cyngor Llawn ym mis Ionawr, er mwyn rhoi cyfarwyddyd i'r Clerc sut y gellir gwella'r cofnodion ar gyfer y cyfarfodydd.

5917: <u>Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 12fed Tachwedd 2003.</u>

Ymddiheurodd Clerc y Dref am anghofio rhoi'r mater ynghylch y Llungopïwr yng nghofnodion y Pwyllgor Cyllid. Mae'r Cyngor wedi derbyn anfoneb o £109.00 am Gytundeb Cynnal a Chadw Blynyddol y Llungopïwr. Y gred gyffredinol oedd fod hwn yn wariant mawr ar hen beiriant, sy'n llafurus i'w ddefnyddio a hefyd yn anibynadwy.

Penderfynodd y Pwyllgor i ganslo'r cytundeb ar gyfer y peiriant hwn ac i edrych ar brynu llungopïwr neu beiriant aml bwrpas ar gyfer y swyddfa newydd.

Derbynnir gofnodion o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Llandeilo ar ddydd Mercher y 12fed Tachwedd 2003 am 7.00 pm. fel cofnod cywir ac yn derbyn argymhellion y Pwyllgor sydd yn y cofnodion. Cynigwyd gan y Cyng Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Vaughan Jones gyda phawb o blaid.

5918: <u>Materion yn Codi:</u>

5902: Cais gan y Gymdeithas Gymunedol parthed ariannu. Nid cais i'w ystyried fel cais am arian Adran 137 yw hwn. Mae pob Cynghorydd yn aelodau o'r Gymdeithas Gymunedol.

Arian ar gyfer y Gymdeithas Gymunedol i'w drafod yng nghyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cyllid.

5919: Cofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 12fed Tachwedd 2003 am 8.21 pm.

Derbynnir gofnodion o'r Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol yn Neuadd y Sir, Llandeilo ar ddydd Mercher 12fed Tachwedd 2003 am 8.21 pm. fel cofnod cywir gan dderbyn argymhellion y Pwyllgor sydd yn y cofnodion.
Cynigiwyd gan y Cyng Burge ac eiliwyd gan y Cyng Jones gyda phawb o blaid.

5920: Materion yn Codi: Nodwyd er bod y Cyngor Tref fod i ymgymryd â'r gwaith o enwi eiddo newydd yn y dref yn uniongyrchol, mae'n ymddangos mai dim ond yr enwau sydd eisoes wedi'u rhoi y mae'r Cyngor yn cael eu hysbysu yn eu cylch.

Clerc y Dref i godi'r mater hwn gyda'r Adran Gynllunio. Dylid cysylltu gyda Chyngor y Dref mewn perthynas ag enwi a rhifo adeiladau yn y Dref.

0125

5921: Hyfforddiant Côd Ymddygiad. Mae Mr Pugh Jones wedi pennu dydd Mawrth 2il Rhagfyr am 7.00 pm. ar gyfer sesiwn Hyfforddiant Côd Ymddygiad i'w gynnal i Gynghorwyr.

Clerc y Dref i dderbyn y dyddiad hwn ac i hysbysu pob Cynghorydd o'r dyddiad a'r amser ar gyfer y cyfarfod hwn. Dylid gofyn am fanylion sesiynau eraill i'w cynnal gan Gynghorau Tref a Chymuned eraill, er mwyn i'r cynghorwyr hynny wnaeth fethu â mynychu'r sesiwn hwn gael cyfle i fynychu un o'r rhain.

5922: Rheoliadau Ariannol: Mae'r Cyng Bellamy wedi treulio cryn dipyn o amser yn addasu'r Rheoliadau Ariannol a awgrymwyd gan yr Archwiliwr Mewnol er mwyn iddynt fod yn addas i anghenion Cyngor bychan. Mae pob aelod wedi derbyn copïau o'r Rheoliadau Ariannol diwygiedig.

Penderfynodd y Cyngor fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol yn eu ffurf diwygiedig. Y rheoliadau hyn i'w hatodi i'r Rheoliadau Sefydlog. Cynigiwyd gan y Cyng I. Gwyn, eiliwyd gan y Cyng Burge gyda phawb o blaid.

Diolchwyd a rhoddwyd llongyfarchiadau i'r Cyng Bellamy am ei gwaith.

5923: Rhybudd o Gynnig. Mae yna oblygiadau o ran y Rheolau Sefydlog wrth i'r cyngor fabwysiadu'r Rheolau Ariannol. Cyflwynodd y Cyng. Bellamy Rhybudd o Gynnig, sy'n diwygio'r Rheolau Sefydlog i ddileu'r Gorchmynion Ariannol i gyfeirio yn uniongyrchol at y Rheoliadau Ariannol sydd newydd eu mabwysiadu.

Cynigiwyd gan y Cyng I. Gwyn fod y Rhybudd o Gynnig wedi'i nodi a'i gyflwyno i'w drafod yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn i'w gynnal ym mis Rhagfyr. Eiliwyd hyn gan y Cyng Burge, gyda phawb o blaid.

5924: Adroddiadau o gyfarfodydd a fynychwyd. Roedd y Cyng Jenkins wedi mynychu Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Cymdeithas Gefeillio'r Dref. Mae'r Maer yn cadw ei swyddogaeth fel aelod o Bwyllgor y Gymdeithas.

Roedd y Cyng Jenkins hefyd wedi mynychu cyfarfod o'r Gymdeithas Gymunedol, pan drafodwyd prosiect y Neuadd Ddinesig. Mynychwyd y cyfarfod gan R. Mead. Bellach mae gan y Gymuned ysgrifennydd. Mae C. Leadbetter wedi cytuno i ymgymryd â'r rôl hon gan dalu sylw arbennig i brosiect y Neuadd Ddinesig. Roedd y farn ynghylch datblygu'r Neuadd Ddinesig yn fwy positif.

5925: Adroddiad y Maer. Diolchodd y Maer i bob Cynghorydd a oedd wedi gweithio'n galed ar gyfer yr Arddangosfa Tân Gwyllt gan ei wneud yn ddigwyddiad cymunedol llwyddiannus.

Rhoddwyd rhodd o £50.00 gan y Cyngor Tref i Ambiwlans St Ioan am eu presenoldeb a'i cefnogaeth i'r Tân Gwyllt. Cynigiwyd gan y Cyng Jenkins eiliwyd gan y Cyng Bellamy. Llythyron o ddiolch i'w hysgrifennu at bwyllgor Clwb Rygbi Llandeilo a phwyllgor Rygbi Plant Llandeilo.

[0127] Adroddodd y maer fod cais wedi dod oddi wrth Glwb Bowlio Llandeilo eu bod am weld yr hen draddodiad o'r Maer yn taflu pêl gyntaf y tymor yn cael ei adfywio. Cytunodd y Maer i hyn.

5926: Cystadleuaeth Ffenest Nadolig. Bydd y Maer a'r Dirprwy Faer yn beirniadu ffenestri siop yn y dref yn ystod yr wythnos cyn cynnau'r Goleuadau Nadolig ddydd Gwener 28ain 2003.

Cyflwynir y gwobrau, Gwobr Gyntaf £50.00 a Thlws, Ail Wobr £30.00, a Thrydedd Gwobr £15.00 wrth gynnau'r goleuadau Nadolig.

Awgrymodd y Maer hefyd y dylai'r Cyngor gynnal Cystadleuaeth i Blant.

Y Clerc i drefnu Cystadleuaeth i Blant, lle mae'n rhaid i blant ddod o hyd i ddoliau wedi'u cuddio mewn pump o ffenestri yn y dref. Ffurflenni i'w casglu o Swyddfa Bost Llandeilo. Ffurflenni i'w rhoi i Ysgolion. Bydd y pum cyntaf cywir a dynnir o'r het pan yn 'cynnau'r goleuadau' yn ennill gwobr.

5927: Gohebiaeth: Mae'r Cyngor wedi derbyn llythyr oddi wrth Sue Essex o'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r dyddiad ar gyfer yr etholiadau wedi newid. Y dyddiad newydd arfaethedig yw'r un diwrnod â'r etholiadau Ewropeaidd 10fed Mehefin 2004.

Mae angen rhagor o wybodaeth ar y Cyngor Tref er mwyn egluro union fanylion o ran y dyddiad ar gyfer datgan a llanw llefydd gwag oddi wrth Swyddog Cofrestru Etholiadol Cyngor Sir Caerfyrddin.

Mae dyddiad diweddarach yr etholiad hwn yn golygu y bydd Seremoni Cyflwyno'r Maer hefyd yn hwyrach, h.y. wedi'r 10fed Mehefin 2004.

5928: Nododd y Maer y bydd yna Wasanaeth Dinesig eleni a'i fod yn trafod gyda'r Ficer ar hyn o bryd.

Y dyddiad a fwriadwyd ar gyfer y Gwasanaeth Dinesig yw dydd Sul 7fed Mawrth 2004. Bydd derbyniad yn dilyn hyn. Dyddiad a lleoliad i'w hysbysu ar ddyddiad diweddarach.

5929: Cynhelir Derbyniad Nadolig y Maer yn dilyn cyfarfod mis Rhagfyr. Bydd y Cynghorwyr yn derbyn eu gwahoddiadau yn fuan. Er mwyn dechrau'r derbyniad mewn da bryd am 8.30 pm-

Cynhelir Cyfarfod Llawn o'r Cyngor ym mis Rhagfyr ar yr 16eg Rhagfyr 2003 ym Mhrif Siambr Dinefwr, Adeiladau'r Cyngor, Y Cilgant, Llandeilo yn dechrau am 7.00pm. Cynigiwyd gan y Cyng. Bellamy, eiliwyd gan y Cyng. Jenkins gyda phawb o blaid.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00pm.

0127